



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar gyfer y Cynllun Teithio Rhatach ar Fysiau: Dull cyffredin ar gyfer cymhwysedd

Yn weithredol o fis Ebrill 2019

Canllawiau

Mae canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol ag Adran 146 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 yn darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol ynghylch y dystiolaeth y mae'n ystyried y mae angen iddynt ei chael gan ymgeisydd cyn rhoi caniatâd iddo gael trwydded i deithio'n rhatach ar sail meini prawf cymhwysedd.

Mae pob awdurdod lleol yn penderfynu p'un ai i gyhoeddi cerdyn teithio rhatach neu beidio, ar sail y ddeddfwriaeth berthnasol ac wrth ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hadolygu gan Lywodraeth Cymru a swyddogion sy'n cynrychioli awdurdodau lleol ac mae'n disodli fersiynau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Anogir awdurdodau lleol i rannu rhai o'u penderfyniadau dienw ymysg ei gilydd ar geisiadau penodol lle fyddai hynny'n helpu i ddatblygu cysondeb wrth benderfynu ar geisiadau ledled Cymru.

Ebrill 2019

Cynnwys

CEFNDIR	5
MODEL CYMDEITHASOL O ANABLEDD	6
Cyflwyniad	6
Beth yw'r model meddygol o anabledd?	7
Sut mae'r model cymdeithasol o anabledd yn wahanol i'r model meddygol o anabledd?	7
Gweithredu'r model cymdeithasol	8
DEDDF CYDRADDOLDEB 2010	8
CYMHWYSEDD	10
PRESWYLIAD	10
Safle carafanau preswyl	12
Unigolyn digartref	13
YMGEISWYR FESUL OEDRAN	13
YMGEISWYR AR SAIL ANABLEDD	14
Tystiolaeth annibynnol	16
Hawl awtomatig neu hawl carlam	17
CATEGORïAU CYMHWYSEDD ERAILL	17
Pobl sydd wedi colli eu golwg	17
Pobl sy'n "hollol" fyddar neu'n "ddifrifol" fyddar	19
Pobl nad ydynt yn gallu siarad	20
Unigolyn â nam neu anaf sy'n cael effaith andwyol hirdymor sylweddol ar allu'r unigolyn i gerdded	20
Pobl heb freichiau neu sydd wedi colli defnydd o'r ddwy fraich yn yr hirdymor	22
Pobl â nam gwybyddol	22
Cyflwr o'r fath sy'n golygu os byddai'r unigolyn yn gwneud cais am drwydded i yrru cerbyd modur o dan Ran III o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, y byddai'r cais hwnnw'n cael ei wrthod yn unol ag adran 92 o'r Ddeddf honno (ffitwydd corfforol) ac eithrio ar sail camdefnyddio cyffuriau neu alcohol yn barhaus	23
CYMDEITHION	25
DEFNYDDIO'R CERDYN TEITHIO RHATACH	27
APELIADAU	28

RHOI CARDIAU NEWYDD YN LLE RHAI SYDD WEDI EU COLLI, EU DWYN NEU
SY'N DDIFFYGIOL28

CEFNDIR

1. Mae Deddf Trafnidiaeth 2000 ("Deddf 2000") yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch teithio rhatach ("awdurdodau") yng Nghymru yn cyhoeddi trwydded teithio rhatach statudol ("cerdyn teithio rhatach") ar gyfer unrhyw ymgeisydd sy'n byw yn ei ardal sy'n 60 oed neu'n hŷn neu sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn unol â'r diffiniadau statudol ynghylch anabledd a nodir yn Adran 146 o Ddeddf 2000, sydd wedi'u crynhoi isod;
 - (a) yn ddall neu'n rhannol ddall,
 - (b) yn hollol fyddar neu'n ddifrifol fyddar,
 - (c) wedi colli lleferydd,
 - (d) yn anabl, neu wedi dioddef anaf, sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gerdded,
 - (e) heb freichiau neu wedi colli defnydd o'r ddwy fraich yn yr hirdymor,
 - (f) ag anabledd dysgu, hynny yw, â chyflwr datblygiad meddwl anghyflawn neu a ataliwyd sy'n cynnwys nam sylweddol ar ddeallusrwydd a gweithredu yn gymdeithasol,
 - (g) y byddai'r ymgeisydd, petai'n gwneud cais am drwydded i yrru cerbyd modur o dan Ran III o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, yn cael ei gais wedi'i wrthod yn unol ag adran 92 o'r Ddeddf (ffitrwydd corfforol) ac eithrio ar sail camddefnyddio cyffuriau neu alcohol yn barhaus.

2. Gall personél y lluoedd arfog sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol a chyn-filwyr y lluoedd arfog sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol ac sy'n perthyn

i'r categorïau anabledd uchod ac yn bodloni'r meini prawf penodedig wneud cais am gerdyn yn ogystal.

3. Mae awdurdodau yn gyfrifol am asesu a phenderfynu ar gymhwysedd, gan ystyried gwybodaeth a gynhwysir yn y canllawiau hyn.
4. Mae adran 145B (1) a (3) o Ddeddf 2000 yn nodi bod yn rhaid i awdurdod gynnig y consesiwn, sy'n cynnwys ildio pris tocyn teithio gan weithredwr y gwasanaeth i bobl 60 oed neu'n hŷn ac i bobl anabl gymwys y mae eu hunig neu brif breswylfa o fewn ardal yr awdurdod. Mae'r awdurdod yn gyfrifol am asesu preswylad. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i roi cerdyn teithio rhatach i'r rhai sy'n aros dros dro mewn ardal.
5. Nid oes gan y canllawiau hyn unrhyw awdurdod arbennig o ran materion dehongli cyfreithiol. Lle mae'n ymddangos bod gwahaniaethau rhwng y canllawiau a'r rheoliadau¹/y Ddeddf, mae deddfwriaeth yn cael blaenoriaeth bob amser.

MODEL CYMDEITHASOL O ANABLEDD

Cyflwyniad

6. Nid yw'r model cymdeithasol o anabledd yn canolbwyntio ar nam unigolyn fel achos ei anabledd. Mae'n esbonio anabledd fel canlyniad i'r ffordd y mae'r amgylchedd yn cael ei adeiladu, sut mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu neu agweddau'r rhai sy'n darparu

¹Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Cymru) 2002

gwasanaethau.

7. Cydnabyddir y model gan bobl anabl a chafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hyn wedi'u cyfyngu gan fformat cyfreithiol sy'n seiliedig yn hanesyddol ar y model meddygol. Er mwyn helpu gyda'r dehongliad, rydym wedi cynnwys rhai termau meddygol a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth sy'n tanategu'r cynllun ac maent wedi eu hamlygu trwy ddefnyddio " ".

Beth yw'r model meddygol o anabledd?

8. Roedd y model meddygol o anabledd yn cysylltu anabledd â nam. Gwelwyd bod anabledd yn ganlyniad i gyflwr corfforol, a byddai hyn, yn anochel, yn lleihau cyfleoedd bywyd yr unigolyn. O dan y model meddygol, roedd gan y proffesiwn meddygol gyfrifoldeb a photensial sylweddol i helpu pobl anabl.
9. Roedd y model meddygol o anabledd yn edrych ar unigolyn anabl fel problem - roedd y ffocws ar y nam, yn hytrach na dileu'r rhwystrau oedd yn effeithio ar yr unigolyn.

Sut mae'r model cymdeithasol o anabledd yn wahanol i'r model meddygol o anabledd?

10. Mae'r model cymdeithasol yn ymwneud â chydraddoldeb a chael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan mewn cymdeithas ar sail gyfartal â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl.

Gweithredu'r model cymdeithasol

11. Mae'n bwysig bod y broses o asesu cymhwysedd ar gyfer cerdyn teithio rhatach yn nodi'n gywir y bobl sydd angen un er mwyn gorchfygu'r rhwystrau maent yn eu hwynebu wrth deithio. Mae angen ymwybyddiaeth gyffredinol o'r model cymdeithasol ar draws y sector cyhoeddus, a chan y cyhoedd yn gyffredinol.

12. Mae adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr gwasanaethau yn cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw pob unigolyn sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cael ei roi o dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl eraill wrth ddefnyddio gwasanaethau.

13. Cyflwynodd Deddf 2010 Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus - gan gynnwys awdurdodau lleol - yn rhoi sylw dyledus i'r canlynol:
 - Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf 2010;
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt;
 - Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

14. Nid yw'r categorïau o bobl anabl a restrir yn Neddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â theithio rhatach yn cwmpasu'r ystod lawn o bobl anabl sydd wedi'u cynnwys o fewn diffiniad Deddf 2010. Mae

Ddeddf 2010 yn darparu bod unigolyn yn anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith negyddol “sylweddol” a “hirdymor” ar ei allu i wneud gweithgareddau dyddiol arferol.

15. Y mathau o anabledd a ddylai alluogi pobl i hawlio teithio rhatach ar fysiau yw'r rhai sy'n barhaol neu sydd wedi para o leiaf 12 mis, neu'r rhai sy'n debygol o bara o leiaf 12 mis neu sy'n debygol o ddigwydd eto. Bydd y nam yn cael effaith sylweddol ar allu unigolyn i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd.
16. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau ar faterion sydd angen eu hystyried wrth benderfynu ar gwestiynau sy'n ymwneud â'r diffiniad o anabledd. Roedd Atodlen 1, Paragraff 12 o Ddeddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod corff dyfarnu sy'n penderfynu, at unrhyw ddiben o'r Ddeddf, a yw unigolyn yn unigolyn anabl, yn ystyried unrhyw agwedd ar y canllawiau hynny sy'n ymddangos yn berthnasol yn ei dyb ef.
17. Er enghraifft, wrth benderfynu ar geisiadau sy'n cynnwys dibyniaeth ar alcohol/caethiwed i gyffuriau neu gamddefnyddio cyffuriau'n barhaus, mae'n darparu ym:
 - Mharagraff A7: “Nid oes angen ystyried sut mae nam yn cael ei achosi, hyd yn oed os yw'r achos yn ganlyniad i gyflwr sydd wedi'i eithrio. Er enghraifft, byddai clefyd yr iau a achoswyd gan ddibyniaeth ar alcohol yn cyfrif fel nam, er bod caethiwed i alcohol ei hun wedi'i eithrio'n benodol o gwmpas y diffiniad o anabledd yn y Ddeddf. Yr hyn sy'n bwysig i'w ystyried yw effaith

nam, nid ei achos – ar yr amod nad yw'n amod eithriedig.

- Paragraff A14: Serch hynny, gall rhywun sydd â chyflwr sydd wedi'i eithrio gael ei ddiogelu fel unigolyn anabl os oes ganddo nam cysylltiedig sy'n bodloni gofyniad y diffiniad. Er enghraifft, gall unigolyn sy'n gaeth i sylwedd megis alcohol fod yn dioddef o iselder hefyd, neu nam corfforol megis niwed i'r iau, a achoswyd gan ddibyniaeth ar alcohol. Er na fyddai'r unigolyn hwn yn bodloni'r diffiniad ar y sail ei fod yn gaeth i rywbeth yn unig, efallai y byddai'n dal i fodloni'r diffiniad o ganlyniad i effeithiau'r iselder neu'r niwed i'r iau."

CYMHWYSEDD

18. Diben y ddogfen hon yw helpu awdurdodau lleol i asesu ymgeiswyr a chyfrifoldeb yr ymgeisydd yw profi ei gymhwysedd trwy ddarparu'r dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol gan dalu am y gost ei hunan.
19. Dylid ystyried tri chategori eang o bobl ar gyfer cerdyn teithio rhatach statudol, unwaith y mae preswyliaid wedi'i gadarnhau.
 - Pobl sy'n 60 oed ac yn hŷn;
 - Pobl anabl gymwys - ceir saith categori o bobl anabl sydd â'r hawl i gael cerdyn teithio rhatach (nodir y manylion isod);
 - Personél y Lluoedd Arfog sydd wedi'u hanafu neu / a chyn-filwyr sydd wedi'u hanafu sy'n bodloni'r meini prawf penodol.

PRESWYLIAD

20. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am ddarparu tystiolaeth i fodloni

awdurdod bod ei brif breswylfa o fewn ardal yr awdurdod. Gall ymgeiswyr ddarparu prawf o gymhwysedd mewn amryw o ffyrdd.

21. Mae'n rhaid i awdurdodau ystyried unrhyw ddau o'r canlynol fel prawf o breswylad.

- Bil Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol;
- Tystiolaeth o daliadau rhent o fewn y tri mis diwethaf;
- Trwydded yrru gyfredol;
- Dogfennau budd-daliadau a phensiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

22. Os nad yw'r ymgeisydd yn gallu darparu dogfennau o'r fath, mae'n rhaid i awdurdodau hefyd ystyried unrhyw un neu gymysgedd o'r canlynol fel prawf o breswyllo i brofi bod yr ymgeisydd yn byw mewn cyfeiriad domestig o fewn ardal yr awdurdod:

- Bil cyfleustodau (heb gynnwys ffôn symudol);
- Tystiolaeth o eithriad rhag cyfrifoldeb am daliadau'r Dreth Gyngor;
- Cadarnhad bod yr ymgeisydd ar Restr Etholwyr yr awdurdod ar gyfer etholiadau Seneddol y DU;
- Cadarnhad bod yr ymgeisydd ar ei Gofrestr Ysgol;
- Tystiolaeth bod yr ymgeisydd yn ddibynnol ar unigolyn sy'n byw yn ardal yr awdurdod;
- Tystiolaeth bod yr ymgeisydd yng ngofal yr awdurdod lleol neu asiantaeth a gymeradwywyd a'i fod yn byw o fewn ardal yr awdurdod;

- Tystiolaeth bod gan yr ymgeisydd gofrestrriad parhaol gyda meddyg teulu lleol;
 - Tystiolaeth o ddogfennaeth y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau preswylad.
23. Nid yw'r dogfennau a thystiolaeth a restrir uchod yn hollgynhwysol a gall awdurdodau ystyried tystiolaeth neu ddogfennau priodol eraill a gyflwynwyd fel prawf o breswylad.
24. Cyfrifoldeb deiliad cerdyn yw sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â'r meini prawf preswylad wrth ddefnyddio cerdyn teithio rhatach. Os, ar unrhyw adeg, bydd deiliad cerdyn yn peidio â byw yn ardal yr awdurdod lleol a roddodd ei gerdyn, ac yn symud i ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru, mae'n rhaid iddo ddiweddarau ei fanylion ar unwaith yn unol â gofynion y cynllun.
25. Os bydd deiliad cerdyn yn symud y tu allan i Gymru, bydd yn gyfrifol am ddychwelyd ei gerdyn teithio rhatach ar unwaith i'r awdurdod lleol a'i roddodd, gan y byddai parhau i ddefnyddio'r cerdyn yn dwyllodrus a gallai'r deiliad fod yn agored i ddirwy o hyd at £1,000 o dan Ddeddf Twyll 2006.

Safle carafanau preswyl

26. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod ymgeiswyr cymwys sy'n byw ar safle carafanau preswyl (fel y penderfynir gan y caniatâd cynllunio ar gyfer y safle) yn gymwys ar gyfer y consesiwn cenedlaethol, ar yr amod eu bod yn gallu dangos bod y safle yn brif

breswyliaid iddynt.

27. Byddai'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr cymwys sy'n gyflogeion llawn amser sy'n byw'n barhaus ar y safle carafanau preswyl, â thystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu gan berchennog y safle.
28. Er mwyn dangos cymhwysedd drwy breswyliaid, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fel yr amlinellir uchod.

Unigolyn digartref

29. Mae gan unigolyn digartref sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yr hawl i gael cerdyn teithio rhatach. Efallai y bydd rhai pobl ddigartref yn gallu darparu dogfennaeth i ddangos eu bod yn derbyn budd-daliadau'r Wladwriaeth neu lythyr gan eu hadran Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol neu ryw asiantaeth arall (e.e. y Gwasanaeth Prawf) i gefnogi cais am gerdyn teithio rhatach.
30. Os mai dim ond am gyfnod cyfyngedig o amser y gellir dangos hawl, efallai y bydd awdurdod lleol sy'n rhoi cerdyn yn dewis gosod terfyn amser ar unrhyw gerdyn teithio rhatach y mae'n ei gyhoeddi.

YMGEISWYR FESUL OEDRAN

31. O dan Adran 146 o Ddeddf 2000, fel y'i diwygir gan Orchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001, mae pob unigolyn sy'n cyrraedd 60 oed, yn gymwys yn awtomatig ar gyfer cerdyn teithio rhatach yng Nghymru, os yw'n byw yng Nghymru.

32. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am ddangos cymhwysedd o ran oedran drwy ddangos dogfennaeth megis y canlynol:
- Trwydded yrru gyfredol,
 - Pasbort cyfredol,
 - Tystysgrif geni.

YMGEISWYR AR SAIL ANABLEDD

33. O dan Ddeddf 2000 mae awdurdod lleol yn penderfynu a yw unigolyn yn bodloni meini prawf cymhwysedd ar gyfer cerdyn teithio rhatach. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod yr awdurdod lleol yn ystyried y canllawiau hyn ar gymhwyster pobl anabl (gweler Adran 145B (6) o Ddeddf 2000). Mae Adran 146 o Ddeddf 2000 yn manylu'r meini prawf sy'n datgan a oes hawl gan unigolyn deithio ar fws yn rhatach.
34. I fodloni'r meini prawf cymhwysedd, dylai'r nam neu gyflwr fod yn barhaol, neu fod wedi para am o leiaf 12 mis; neu'n debygol o bara am o leiaf 12 mis; neu'n debygol o ddigwydd eto. Bydd y nam yn cael effaith ddifrifol ar allu unigolyn i ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â symudedd.
35. Gallai'r anabledd effeithio'n barhaus neu'n ddifrifol ar unigolyn a bydd angen i awdurdodau lleol fod yn fodlon bod effaith barhaus trwy gydol y cyfnod y caiff y cerdyn teithio rhatach ei gyhoeddi.
36. Os bydd unigolyn yn gorfod dangos ei fod yn derbyn budd-dal y DU

a bod hwn o dan gyfyngiad amser, mae'n synhwyrol ac yn ddoeth bod y cerdyn teithio rhatach a roddir yn dilyn yr un cyfyngiad amser, neu hyd nes y byddai'r unigolyn yn gymwys yn awtomatig yn ôl oedran, neu ddim yn cyrraedd y trothwy pwyntiau gofynnol mwyach.

37. Lle nad yw nam yn barhaol, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai'r awdurdod adolygu amgylchiadau'r unigolyn bob tair blynedd o leiaf neu ar y dyddiad y mae'r budd-dal yn dod i ben, os bydd yn llai na tair blynedd er mwyn cadarnhau a yw'n parhau i fod yn gymwys ac i ystyried effaith y nam os a phryd y bydd yn gosod dyddiad dod i ben ar gyfer y cerdyn. Yn ogystal, gallant gyfeirio pob ymgeisydd, llwyddiannus neu beidio, at gynllun y Waled Oren https://asinfowales.co.uk/home.php?page_id=8251&setLanguage=4.
38. Un o'r dulliau mwyaf cadarn o asesu cymhwysedd yw defnyddio budd-daliadau perthnasol y Wladwriaeth sydd eisoes wedi sefydlu'r rhwystrau a wynebir gan yr ymgeisydd. Mae'n rhaid bod ymgeiswyr yn darparu tystiolaeth ddogfennol gyfredol, ddilys o'u hawl, er enghraifft, y llythyr hysbysiad neu ddyfarniad budd-dal.
39. Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i gynnig cyngor pellach i swyddogion sy'n gyfrifol am asesu ceisiadau ac, unwaith yn rhagor, byddai Llywodraeth Cymru yn annog pob awdurdod i fabwysiadu a chymhwyso'r un meini prawf er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Tystiolaeth annibynnol

40. Os ceir unrhyw amheuaeth ynghylch cymhwysedd, gall yr awdurdod ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gael tystiolaeth annibynnol gan weithiwr meddygol, iechyd neu gymdeithasol cymwys i gefnogi'r cais, er enghraifft, Nyrs Iechyd Galwedigaethol, Therapydd Galwedigaethol neu, os yw'n gwbl angenrheidiol, meddyg teulu. Efallai bod tystiolaeth ar gael yn barod os bydd yr ymgeisydd wedi'i asesu ar gyfer gwasanaethau eraill gan yr awdurdod lleol neu wasanaethau iechyd. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw talu costau unrhyw ffi.
41. Yn ogystal, gallai awdurdodau lleol ystyried gweithio gydag asiantaethau eraill, petai'r angen yn codi am dystiolaeth bellach.
42. Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ffi a godir i gwmpasu cost unrhyw asesiad yn cael ei thalu. Nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw ddyletswydd i ad-dalu unrhyw ffioedd o'r fath. Efallai fod gan rai byrddau iechyd lleol drefniant ar waith lle y maent yn ad-dalu'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer cost asesiad, ond penderfynir ar hynny yn lleol.
43. Os, ar unrhyw adeg, nad yw deiliad cerdyn teithio rhatach sydd wedi'i roi ar sail anabledd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach, mae'n rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol sy'n rhoi'r cerdyn ar unwaith a dychwelyd y cerdyn, gan y byddai parhau i ddefnyddio'r cerdyn yn dwyllodrus a gallai fod yn agored i ddirwy o hyd at £1,000 o dan Ddeddf Twyll 2006.

Hawl awtomatig neu hawl carlam

44. Mae hawl awtomatig i gerdyn teithio rhatach (h.y. heb fod angen asesiad pellach) yn gymwys pan fydd unigolyn sy'n bodloni'r maen prawf preswyliaid wedi derbyn un o fudd-daliadau canlynol y Wladwriaeth.

- Cyfradd Uwch Efen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (y Gyfradd Uwch),
- Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel,
- Dyfarniad o dan Dariffau 1-8 o Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog,
- Taliad Annibyniaeth Personol, gyda'r dyfarniad wedi ennill:
 - wyth o bwyntiau neu fwy o dan y Disgrifydd ar gyfer Cyfathrebu ar Lafar 7;
 - 12 pwynt o dan y Disgrifydd ar gyfer Symudedd 11 "Cynllunio a Dilyn Taith";
 - wyth o bwyntiau neu ragor o dan y Disgrifydd ar gyfer Symudedd 12 "Symud o Gwmpas".

Mae'n rhaid bod ymgeiswyr yn darparu eu llythyrau dyfarnu budd-dal gwreiddiol a thystiolaeth i ddangos bod y budd-dal hwn dal yn ddilys.

CATEGORïAU CYMHWYSEDD ERAILL

Pobl sydd wedi colli eu golwg

45. Mae cymhwysedd ar gyfer cerdyn teithio rhatach yn achos colli golwg yn golygu bod yr ymgeisydd wedi colli llawer iawn o'i olwg yn y ddau lygad (e.e. gweld llawer yn llai na'r hyn sy'n arferol, neu

efallai dim byd o gwbl).

46. Gall unigolyn sydd wedi colli ei olwg gofrestru gydag adran gwasanaethau cymdeithasol ei awdurdod lleol. At ddibenion cofrestru, y termau a ddefnyddir yw "nam difrifol ar y golwg" neu "nam ar y golwg". Yr hysbysiad ffurfiol sy'n ofynnol i gofrestru yw Tystysgrif nam ar y golwg (CVI), wedi'i lofnodi gan Offthalmolegydd Ymgynghorol (arbenigwr llygaid).
47. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n ofynnol bod Offthalmolegydd wedi cwblhau ffurflen (CVI) a'i chyflwyno i adran gwasanaethau cymdeithasol lleol yr unigolyn. Yn nhermau cyffredinol, gall unigolyn gael ei gofrestru â nam "difrifol" ar y golwg os nad yw'n gallu gweld (gyda sbectol, os cânt eu gwisgo) y llythyren uchaf ar y siart prawf llygaid (a ddefnyddir gan feddygon ac optegwyr) ar bellter o dri metr neu lai.
48. Gall unigolyn gael ei gofrestru wedi colli ei olwg os oes ganddo gylch gweld llawn ond y mae ond yn gallu darllen llythyren uchaf y siart prawf llygaid ar bellter o chwe metr neu lai (gyda sbectol, os cânt eu gwisgo).
49. Fodd bynnag, os bydd yn gallu darllen y tair llinell nesaf i lawr o'r un pellter, ond bod y cylch gweld yn weddol gyfyngedig neu'n gyfyngedig iawn, efallai y bydd yn dal i fod yn gymwys ar gyfer cofrestru.

50. Oherwydd bod cofrestru yn wirfoddol, gall awdurdodau lleol - lle nad yw unigolyn sydd wedi colli ei olwg ar restr nam ar y golwg yr awdurdod lleol - ofyn am dystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer cofrestru fel unigolyn â nam ar y golwg.

Pobl sy'n "hollol" fyddar neu'n "ddifrifol" fyddar

51. Mae colli clyw yn cael ei fesur mewn desibelau, dBHL (Lefel Clyw). Mae'r seiniau tawelaf y mae pobl â "byddardod ysgafn" yn gallu eu clywed yn 25-39 desibel, ac mae'n 40-69 desibel ar gyfer pobl â "byddardod cymedrol", 70-94 desibel ar gyfer pobl sy'n "ddifrifol" fyddar a mwy na 95 desibel ar gyfer y rheini sy'n "hollol" fyddar. Dylai'r cerdyn teithio rhatach fod ar gael i bobl sydd yn "hollol neu'n ddifrifol" fyddar yn y ddwy glust.
52. Nid oes system cofrestru statudol ar gyfer pobl sydd wedi colli eu clyw, ond bydd llawer wedi cofrestru'n wirfoddol gydag adran gwasanaethau cymdeithasol eu hawdurdod lleol. Mae'r gofrestr yn agored i bobl â lefelau amrywiol o fyddardod ac felly bydd angen i'r awdurdod fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn "hollol neu'n ddifrifol" fyddar.
53. Gall awdurdodau lleol, lle bo hynny'n briodol, ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos dystiolaeth o gofrestru cyn rhoi trwydded, neu dystiolaeth y gallent gofrestru (e.e. adroddiad awdiolegol, neu adroddiad gan arbenigwr clywedol).

Pobl nad ydynt yn gallu siarad

54. Cynhwysir pobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar mewn unrhyw iaith yn y categori hwn, a gallant ddangos un o'r canlynol:
- Anallu i wneud ceisiadau llafar clir, sylfaenol (e.e. gofyn am gyrchfan neu bris penodol).
 - Anallu i ofyn cwestiynau penodol er mwyn cael eglurhad ynghylch cyfarwyddiadau (e.e. "Ydy'r bws hwn yn mynd i'r Stryd Fawr?").
55. Ym marn Llywodraeth Cymru, ni fyddai'r categori hwn yn cynnwys pobl sy'n gallu cyfathrebu ar lafar ond bod eu lleferydd yn gallu bod yn araf neu'n anodd ei ddeall oherwydd, er enghraifft, atal dweud. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd awdurdodau yn dymuno argymhell cynllun y Waled Oren i'r ymgeisydd https://www.asdinfoales.co.uk/home.php?page_id=8251&setLanguage=4 sydd wedi'i gynllunio ar gyfer pobl a hoffai dderbyn cymorth i gyfathrebu â staff wrth ddefnyddio bysiau, neu drenau.
56. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw darparu tystiolaeth briodol i gefnogi cais a wneir ar y seiliau hyn.

Unigolyn â nam neu anaf sy'n cael effaith andwyol hirdymor sylweddol ar allu'r unigolyn i gerdded

57. I fod yn gymwys o dan y categori hwn, byddai'n rhaid bod gan unigolyn nam hirdymor a sylweddol sy'n golygu na all gerdded neu sy'n ei gwneud yn anodd iawn iddo gerdded. Bydd cardiau teithio rhatach yn cael eu rhoi i bobl nad ydynt yn gallu cerdded neu sydd

ond yn gallu cerdded gydag ymdrech fawr ar gyflymder eithriadol o araf, neu â phoen gormodol. Mae'r maen prawf hwn yn debyg i'r hyn sydd ei angen i hawlio Cyfradd Uwch Eifen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (y Gyfradd Uwch) neu'r Taliad Annibyniaeth Personol.

58. Bydd ymgeiswyr sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn yn gallu dangos llythyr dyfarnu budd-daliadau cyfredol (er enghraifft PIP 7006) fel tystiolaeth ddogfennol o'u hawl.
59. Wrth asesu hawl ymgeiswyr eraill, bydd angen tystiolaeth o unrhyw un o'r canlynol ar awdurdod lleol:
 - A yw'r ymgeisydd yn gallu sefyll ac yna symud gan ddefnyddio cymorth yn neu offer am fwy nag 20 metr ond dim mwy na 50 metr,
 - A yw cymhorthyn symudedd yn angenrheidiol.
 - A oes angen ocsigen ar yr unigolyn i'w alluogi i deithio.
 - A yw'r unigolyn ond yn gallu cerdded yn araf iawn a chyda seibiannau aml.
60. Lle nad yw ymgeisydd yn derbyn un o'r budd-daliadau a grybwyllwyd uchod (fel enghreifftiau posibl), mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am ddarparu tystiolaeth gan weithiwr meddygol, iechyd neu gymdeithasol cymwys i gefnogi'r honiad bod nam parhaol neu sylweddol ar ei allu i gerdded.

Pobl heb freichiau neu sydd wedi colli defnydd o'r ddwy fraich yn yr hirdymor

61. Gall y categori hwn gynnwys pobl sydd wedi cael eu braich uchaf wedi'i thorri i ffwrdd ar y ddwy ochr; nychdod cyhyrol; niwed i fadruddyn y cefn; clefyd niwronau motor; neu gyflwr sy'n cael effaith gymharol ar eu hannibyniaeth.

62. Byddai'r categori hwn yn cwmpasu pobl nad ydynt yn gallu defnyddio'u breichiau i wneud tasgau o ddydd i ddydd, megis rhoi ceiniogau i mewn i beiriant talu. Yn yr achosion olaf hyn, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw darparu tystiolaeth i gefnogi'r cais.

Pobl â nam gwybyddol

63. Mae gan unigolyn â nam gwybyddol lai o allu i ddeall rhywfaint o wybodaeth newydd neu gymhleth, anhawster wrth ddysgu rhai sgiliau newydd, ac efallai nad yw'n gallu ymdopi'n annibynnol.

64. Mae Deddf 2000 yn nodi "fel anabledd dysgu, hynny yw, â chyflwr datblygiad meddwl anghyflawn neu a ataliwyd sy'n cynnwys nam sylweddol ar ddeallusrwydd a gweithredu yn gymdeithasol". Dylai'r unigolyn fod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau arbenigol ac efallai ei fod yn derbyn darpariaeth dysgu ychwanegol neu wedi'i derbyn yn y gorffennol.

65. Mae'r ymgeisydd neu'i ofalwr yn gyfrifol am gael gafael ar y dystiolaeth briodol o ran y nam gwybyddol. Gallai'r awdurdod lleol wirio unrhyw gofrestr o bobl sydd efallai'n cael ei chadw gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol fyddai'n helpu i sefydlu

cymhwysedd yn yr achosion hyn.

66. Yn gyffredinol, byddai pobl sy'n gymwys yn wynebu rhwystrau mawr o ran eu symudedd. Bydd awdurdodau lleol yn asesu'r cymhwysedd hwn yn erbyn tystiolaeth annibynnol a ddarperir ar gost yr ymgeisydd gan weithiwr meddygol, iechyd neu gymdeithasol â chymwysterau priodol.

Cyflwr o'r fath sy'n golygu os byddai'r unigolyn yn gwneud cais am drwydded i yrru cerbyd modur o dan Ran III o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, y byddai'r cais hwnnw'n cael ei wrthod yn unol ag adran 92 o'r Ddeddf honno (ffitrwydd corfforol) ac eithrio ar sail camddefnyddio cyffuriau neu alcohol yn barhaus

67. O dan Adran 92 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, gellir gwrthod cyhoeddi trwydded yrru neu ei dirymu os oes gan yr ymgeisydd gyflwr meddygol hysbysadwy a ddiffinnir gan y DVLA. O dan yr amgylchiadau hyn, gellir cyhoeddi cerdyn teithio rhatach am gyfnod dirymiad y drwydded ar sail feddygol.
68. Nid yw hyn yn cynnwys ildio trwydded yrru yn wirfoddol neu lle mae'r ymgeisydd yn cael ei gynghori i beidio â gyrru oherwydd sgil-ffeithiau meddyginiaeth ragnodedig.
69. Gellir gweld amodau hysbysadwy yn <https://www.gov.uk/driving-medical-conditions>
70. Nid yw pobl sydd wedi colli eu trwyddedau gyrru oherwydd eu bod yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol yn gyson yn cael eu

cynnwys ac felly nid oes ganddynt hawl i deithio'n rhatach.

71. Nid yw'n amod hawl o dan y categori hwn bod yr unigolyn anabl yn gorfod gwneud cais am drwydded yrru a bod y drwydded yn cael ei gwrthod (a fyddai'n ddiangen o feichus i bawb dan sylw). Ar gyfer pobl sy'n gymwys, gall yr awdurdod lleol fod yn hyderus y byddai trwydded yn cael ei gwrthod ac felly dylai fod yn gallu rhoi'r cerdyn teithio rhatach yn awtomatig.
72. O dan Reoliadau Cerbydau Modur (Trwyddedau Gyrru) 1999 ceir rhai amodau lle y gall trwyddedau gyrru gael eu rhoi, er enghraifft:
- Pobl sydd â chylch gweld cyfyngedig (y gwrthodir trwydded iddynt os nad oes ganddynt gylch gweld llorweddol o 120 gradd o leiaf, neu os oes ganddynt smotyn dall (sgotoma) sylweddol sy'n ymledu o fewn 20 gradd i'r pwynt gosod canolog mewn unrhyw feridian) neu - weithiau - os oes ganddynt gylch gweld fertigol cyfyngedig.
 - Pobl â diabetes sy'n rheoli'r cyflwr ag inswlin. Yn gyffredinol, gall pobl â diabetes sy'n rheoli eu cyflwr ag inswlin barhau i yrru - er efallai bydd angen adnewyddu eu trwyddedau yn flynyddol neu bob dwy neu dair blynedd. Fodd bynnag, lle mae'r unigolyn yn profi hypoglycaemia ataliol sy'n effeithio ar ei weithgareddau o ddydd i ddydd bydd yn cael ei atal rhag gyrru nes bod y diabetes o dan reolaeth.
 - Yn achos epilepsi, os nad yw'r unigolyn wedi dioddef ffit epileptig tra'n effro am flwyddyn neu fwy, neu fod ganddo hanes o ffitiau wrth gysgu, ac wrth gysgu yn unig, yn ystod y tair blynedd

diwethaf neu fwy.

73. Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr. Lle ceir amheuaeth ynghylch a fyddai trwydded yrru yn cael ei gwrthod ar gyfer rhywun, cynghorir yn gryf bod yr awdurdod lleol yn ceisio cyngor priodol.

CYMDEITHION

74. Gall unigolyn sydd ag anabledd “difrifol” fod yn gymwys ar gyfer cerdyn teithio rhatach gyda hawl i gydymaith, fel y byddai'n cael cymorth gan un cydymaith cyfrifol priodol wrth fynd ar daith lle rhoddir consesiwn, sef ildio'r pris ar gyfer y daith gan weithredwr y gwasanaeth.
75. Ni ddylid rhoi hawl i gydymaith i ddeiliad cerdyn teithio rhatach sy'n anabl fel mater o drefn, ond dim ond am fod angen y cymorth ychwanegol arno y mae'n rhaid i gydymaith ei ddarparu i'w alluogi i deithio ar fws, y tu hwnt i'r cyfrifoldebau cyffredin a ddisgwylir gan unigolyn sy'n ei hebrwng.
76. Gellir sicrhau bod cerdyn teithio rhatach gyda hawl i gydymaith ar gael i bobl sy'n gymwys ar gyfer cerdyn oherwydd eu bod yn bodloni un neu fwy o'r saith categori anabledd ac nad ydynt yn gallu teithio - neu nad ydynt yn gallu teithio ar adegau - heb gymorth neu oruchwyliaeth.
77. Gellir rhoi cerdyn teithio rhatach â hawl i gydymaith yn dilyn asesiad i bobl sydd â'r canlynol:

- Ymddygiadau heriol, sydd angen goruchwyliaeth barhaus.
- Namau gwybyddol a meddyliol difrifol (gan gynnwys pobl heb ymwybyddiaeth o risg a gallu cyfyngedig i gynllunio a dilyn taith).
- Cyfuniad o golli golwg a chlyw neu golli golwg a lleferydd sy'n atal symudedd annibynnol.
- Anawsterau wrth ddefnyddio cadair olwyn yn annibynnol.

78. Gall y nam olygu nad oes angen cymorth ar ddeiliad y cerdyn ar bob taith. Ond lle bydd angen cymorth, bydd yn rhaid bod y cydymaith yn mynd gyda deiliad y cerdyn ar gyfer y daith bws gyfan. Er enghraifft, gall unigolyn sy'n derbyn Taliad Annibyniaeth Personol ar gyfer "Cynllunio a Dilyn Taith", unwaith y mae wedi gwneud teithiau i'r un man, wneud yr un daith ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, gallai fod angen cymorth cydymaith o hyd arno ar daith fwy cymhleth.

79. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw cymdeithion eu hunain yn cael cerdyn teithio rhatach, ac nid ydynt yn gallu teithio am ddim oni bai eu bod yn cyd-deithio â deiliad cerdyn â hawl i gydymaith.

80. Os nad oes ffynhonnell arall o wybodaeth, bydd yn rhaid gwirio'r angen am hawl i gydymaith gan weithiwr meddygol, iechyd neu gymdeithasol cymwys (gweler paragraff 40), yn unol â gweithdrefn asesu ofynnol yr awdurdod.

81. Mae unigolyn yn gymwys i gael hawl i gydymaith lle ceir tystiolaeth gan weithiwr meddygol, iechyd neu gymdeithasol cymwys neu

wybodaeth sy'n dangos efallai na fydd yn gallu mynd ar daith yn ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, gall effaith y nam olygu nad oes angen i ddeiliad y cerdyn gael cymorth ar bob taith.

82. Gall fod yn bosibl nodi pobl sy'n bodloni'r meini prawf hyn drwy wirio'u dyfarniad budd-dal, fel y nodwyd yn flaenorol.
83. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod ffi a godir i dalu cost yr asesiad yn cael ei thalu. Nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw ddyletswydd i ad-dalu unrhyw ffioedd o'r fath.

DEFNYDDIO'R CERDYN TEITHIO RHATACH

84. Ni ddylai gyrrwr bysiau wrthod teithio am ddim i ddeiliad cerdyn ac eithrio am resymau diogelwch, oni bai bod y cerdyn teithio rhatach wedi'i restru'n benodol neu wedi dod i ben. Os yw'r gyrrwr yn pryderu ynghylch deiliad cerdyn â hawl i gydymaith sy'n teithio heb gydymaith, dylai'r gyrrwr nodi manylion y cerdyn a dweud wrth y cwmni bysiau am ei bryderon.
85. Yn yr un modd, os nad yw'r gyrrwr bws yn credu bod y cydymaith yn ymddangos yn addas ar gyfer y cyfrifoldeb hwnnw, ni ddylai'r gyrrwr atal deiliad y cerdyn rhag teithio am ddim - neu, drwy estyniad, y cydymaith - ac eithrio am resymau diogelwch. Unwaith yn rhagor, dylai'r gyrrwr nodi manylion y cerdyn gan adael i'r cwmni bysiau wybod am ei bryderon.

86. Pan fydd gyrrwr yn ei hysbysu, dylai'r cwmni bysiau hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol a bydd angen i'r awdurdod benderfynu a oes angen cynnal ymholiadau pellach.

APELIADAU

87. Nid yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu apeliadau i Lywodraeth Cymru ond, yn yr un modd, nid oes cyfyngiad ar sawl gwaith y gall ymgeisydd wneud cais am gerdyn ond dylai ddarparu gwybodaeth ychwanegol.
88. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai unrhyw lythyron sy'n gwrthod cais am gerdyn teithio rhatach esbonio pam y mae'r cais wedi'i wrthod, gan ddarparu manylion ynghylch system gwyno'r awdurdod lleol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru.

RHOI CARDIAU NEWYDD YN LLE RHAI SYDD WEDI EU COLLI, EU DWYN NEU SY'N DDIFFYGIOL

89. Mae'r rheoliadau yn caniatáu i awdurdodau sy'n cyhoeddi cardiau godi ffi ar gyfer rhoi cardiau teithio newydd ond am swm nad yw'n uwch na'r gost wirioneddol.